Cartrefi Conwy

Creu cymunedau i fod yn falch ohonynt

Creating communities to be proud of

We Do The Right Thing | We Lead By Example | We Are Stronger Together

## Proffil Swydd

Syrfëwr Eiddo Cynnal a Chadw

## Adrodd i:

Cyfarwyddwr Cynorthwyol Eiddo

## Tîm:

Gwasanaethau Eiddo

## Rheolwyr Llinell:

Dim

## Lleoliad:

Symudol yn ardal weithredol Cartrefi Conwy

## Cyflog, Oriau a Gwyliau:

£39,913 - £40,395 gros y flwyddyn

37 awr yr wythnos

25 diwrnod o wyliau blynyddol, yn ogystal â gwyliau banc/ statudol.

Ar ôl cwblhau 5 mlynedd o wasanaeth parhaus, bydd eich hawl i wyliau yn cynyddu 5 diwrnod i 30 diwrnod. Ar ôl cwblhau 10 mlynedd o wasanaeth parhaus, bydd eich hawl i wyliau yn cynyddu 2 ddiwrnod ychwanegol i 32 diwrnod.

## Pwrpas y Swydd:

Yn Cartrefi Conwy, rydym yn falch o fod yn fwy na dim ond darparwr tai. Ein pwrpas yw cynnig cartrefi fforddiadwy a diogel wrth greu cyfleoedd i'n tenantiaid ffynnu.
Wedi'i arwain gan ein tri ymrwymiad – rydyn ni'n gwneud y peth iawn, rydym yn arwain trwy esiampl ac, rydyn ni'n gryfach gyda'n gilydd - byddwn yn sicrhau bod pob penderfyniad a wnawn yn rhoi cwsmeriaid a chymunedau yn gyntaf. Byddwch yn rhan o dîm cyfeillgar, blaengar gyda chyfleoedd i dyfu a chael effaith wirioneddol.

Yn gyfrifol am waith trwsio a chynnal a chadw ffabrig holl adeiladau Cartrefi Conwy drwy gynnal arolygiadau ac arolygon technegol.

Darparu gwasanaethau arolygu arbenigol sy'n canolbwyntio ar adnabod, asesu a datrys problemau lleithder a llwydni ar draws y stoc dai. Mae'r swydd yn sicrhau bod eiddo yn ddiogel, yn addas i fyw ynddynt ac yn cydymffurfio â safonau iechyd a diogelwch, tra'n cefnogi ymrwymiad y sefydliad i les tenantiaid a chynnal a chadw rhagweithiol.

## Dimensiynau'r Swydd:



ARMED FORCES COVENANT

disability confident EMPLOYER

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y swydd deithio'n lleol yn rheolaidd i ymweld â safleoedd gwaith, eiddo tenantiaid, cerdded o amgylch ystâd ac ati ac felly gall olygu gweithio mewn amgylcheddau awyr agored am gyfran sylweddol o'r amser.

## Ffocws a Chyfrifoldebau Allweddol:

Cynnal archwiliadau eiddo manwl i ganfod a dadansoddi achosion lleithder a llwydni, gan gynnwys cyddwysiad, diffygion strwythurol, a mewnlif dŵr.

Paratoi adroddiadau arolwg cynhwysfawr gydag argymhellion ar gyfer gwaith adfer, gan gynnwys amcangyfrifon cost ac amserlenni.

Cysylltu â chontractwyr, tenantiaid a thimau mewnol i gydlynu a goruchwylio gwaith adfer.

Monitro a gwerthuso gwaith wedi'i gwblhau i sicrhau ansawdd, cydymffurfiaeth a boddhad tenantiaid.

Cadw cofnodion cywir o arolygiadau, canfyddiadau, a chamau gweithredu a gymerwyd gan ddefnyddio systemau rheoli asedau.

Darparu cyngor technegol a chefnogaeth i gydweithwyr a rhanddeiliaid ar faterion sy'n gysylltiedig â lleithder a llwydni.

Cyfrannu at ddatblygu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli lleithder a llwydni.

Cefnogi ymateb y sefydliad i gwynion a hawliadau cyfreithiol sy'n ymwneud â chyflwr eiddo.

Cadw'n gyfredol gyda deddfwriaeth berthnasol, rheoliadau adeiladu, ac arferion gorau.

Cynnal arolygon cyflwr a helpu i adnabod a darparu amcangyfrifon o ofynion cynnal a chadw angenrheidiol yn y dyfodol. Adnabod materion cyflwr a chynllunio cynnal a chadw mewn perthynas â gwasanaethau adeiladu a chynorthwyo i ddarparu cyngor ynghylch asesu a chostio gofynion cysylltiedig pellach.

Cynnal arolygon adeiladu a pharatoi amserlenni at ystod o ddibenion gan gynnwys cyflwr, diffygion, natur adfeiliedig adeileddau a gwaith.

Tynnu sylw at eiddo sydd mewn perygl o fod angen gwaith adfer a blaenoriaethu gwaith trwy sianeli priodol.

Ymchwiliad cychwynnol ac argymhellion i Reoli cwynion.

## Perthnasoedd Allweddol:

| |
|---|
| **Allanol:**<br>**Rheolwyr Gweithredol BMU** – Cyswllt dyddiol ar gynnydd ac ansawdd adrodd llwyth gwaith a chodi unrhyw faterion ar y safle gan gynnwys materion costau, cwynion, neu benderfyniadau gwaith trwsio sy'n gofyn am gyfranogiad Rheolwr Gwasanaethau Contractwr.<br>**Cyfarwyddwyr Cynorthwyol Eiddo ac Asedau** – Cyswllt misol ag argymhellion gwaith cyfalaf ac adnabod eiddo sydd mewn perygl o fynd i gyflwr adfeiliedig<br>**Technegwyr Masnachol** – cymeradwyo costau (o fewn lefelau awdurdod) penderfyniadau gwaith trwsio technegol ar gyfer technegwyr masnachol yn ddyddiol. |
| **Mewnol:**<br>**Tenantiaid** – Rhoi gwybod i denantiaid am benderfyniadau gwaith trwsio a chynnydd ar gyflawni gwaith o’r fath.<br>**Is-gontractwyr** – Cysylltu ag is-gontractwyr penodedig ar gynnydd ac ansawdd gwaith. |

# Manyleb PersonOL

## Cymwysterau:

| | **Hanfodol/ Dymunol** | **Wedi'i asesu gan?**<br>Cais (Cais)<br>Ardystiad (A)<br>Cyfweliad (C) |
|---|---|---|
| Diploma Syrfëwr Adeiladau, Adeiladu neu gymhwyster perthnasol tebyg | Hanfodol | Cais |
| Aelodaeth o RICS, CIOB, neu gorff proffesiynol tebyg | Dymunol iawn | Cais |

## Gwybodaeth a Phrofiad:

| | Hanfodol/ Dymunol | Wedi'i asesu gan? |
|---|---|---|
| Profiad dangosadwy mewn canfod a datrys problemau lleithder a llwydni mewn eiddo preswyl. | Hanfodol | Cais / Cyfweliad |
| Profiad o gysylltu â nifer o gontractwyr ac asiantaethau allanol ar yr un pryd a rheoli pecynnau gwaith yn unol â hynny ar y safle | Hanfodol | Cais / Cyfweliad |
| Dealltwriaeth gadarn o batholeg adeiladu, systemau awyru, a rheoli lleithder. | Dymunol iawn | Cais / Cyfweliad |
| Profiad o ganfod angen am waith trwsio yn enwedig lleithder, cyddwysiad, diffygion strwythurol a nodi camau adfer trwy ddefnyddio amserlen cyfraddau | Hanfodol | Cais / Cyfweliad |
| Gwybodaeth gadarn o'r ddeddfwriaeth gyfredol sy'n ymwneud â Safonau a Rheoliadau Adeiladu | Hanfodol | Cais / Cyfweliad |

| | | |
|---|---|---|
| Profiad o sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau, gweithdrefnau a safonau Iechyd a Diogelwch i hyrwyddo amgylchedd gwaith diogel | Hanfodol | Cais / Cyfweliad |
| Profiad o weithio mewn Cymdeithas Dai, darparwr tai arall neu sefydliad tebyg | Dymunol iawn | Cais / Cyfweliad |

## Sgiliau:

| | Hanfodol/ Dymunol | Wedi'i asesu gan? |
|---|---|---|
| Y gallu i gysylltu'n effeithiol â chydweithwyr eraill ar bob lefel ac i gynnig cyngor a chefnogaeth pan fo angen | Hanfodol | Cyfweliad |
| Sgiliau sefydliadol a rheoli amser cryf gyda'r gallu i reoli llwyth gwaith o ddydd i ddydd gyda goruchwyliaeth lleiaf | Hanfodol | Cyfweliad |
| Y gallu i reoli llwyth gwaith sylweddol yn effeithiol ac i weithio i ddydd-iadau cau penodedig | Hanfodol | Cyfweliad |
| Gwybodaeth weithredol dda o Microsoft Word ac Excel (i lefel Ganolradd) | Hanfodol | Prawf Gallu |
| Y gallu i sicrhau bod safonau uchel o ansawdd a chywirdeb gwaith yn cael eu cynnal gan gontractwyr/cyflenwyr | Hanfodol | Cyfweliad |
| Y gallu i gynhyrchu adroddiadau a chynnal cofnodion cywir mewn perthynas â phrosiectau parhaus | Hanfodol | Prawf Gallu / Cyfweliad |
| Trwydded Yrru Lawn y DU a'r defnydd o gerbyd at ddibenion gwaith* | Hanfodol | Cais |
| Sgiliau Iaith Gymraeg | Dymunol iawn | Cais |

## Ymrwymiadau Cartrefi Conwy:

| | Hanfodol/ Dymunol | Wedi'i asesu gan? |
|---|---|---|
| Rydyn ni'n gwneud y peth iawn | H | Cyfweliad |
| Rydyn ni'n arwain trwy esiampl | H | Cyfweliad |
| Rydyn ni'n gryfach gyda'n gilydd | H | Cyfweliad |

*Mae Cartrefi Conwy wedi ymrwymo i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ein gweithgareddau.

*Lle mae anabledd yn gwahardd, bydd hyn yn cael ei adolygu gyda'r ymgeiswyr yn y cam cyfweld i ganfod a oes unrhyw addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud i'r gofyniad hwn.

*Lle mae anabledd yn atal, bydd hyn yn cael ei adolygu gyda'r ymgeiswyr yn y cam cyfweld i ganfod a oes unrhyw addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud i'r gofyniad hwn.